# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Medi 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13484

## 155

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 1 ac 8 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Atebwyd cwestiwn 9 gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dechreuodd yr eitem am 14.23

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl cwestiwn 2.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

Dechreuodd yr eitem am 15.16

Gofynnwyd y 3 chwestiwn.

### 4 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.27

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Atebwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ddiogelwch yr ystâd iechyd yn dilyn y newyddion bod digwyddiad mawr wedi ei ddatgan yn Ysbyty Llwynhelyg ym mis Awst?

**Atebwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gyllideb 2023-24 Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni sylwebaeth barhaus gan Weinidogion yn y cyfryngau dros yr haf?

**Atebwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru heddiw fod pob un o saith bwrdd iechyd Cymru mewn statws uwchgyfeirio?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 16.04

Gwnaeth **Heledd Fychan** ddatganiad am - Teyrnged i Gareth Miles, sylfaenydd Cymdeithas yr Iaith.

Gwnaeth **Sioned Williams** ddatganiad am - Mis Dal y Bws (Medi).

## 6 Dadl ar ddeiseb P-06-1337 - Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndwr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol

Dechreuodd yr eitem am 16.07

**NDM8345** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndwr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol' a gasglodd 10,539 o lofnodion.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol

Dechreuodd yr eitem am 16.49

**NDM8346** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: "Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol" a osodwyd ar 23 Mai 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Medi 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022

Dechreuodd yr eitem am 17.28

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8347** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiddymu Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022, sydd i ddod i rym ar 17 Medi 2023.

Dogfen ategol - Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 38 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022.

2. Yn nodi bod gostwng terfynau cyflymder lle mae pobl a cherbydau yn rhyngweithio fwyaf yn gallu achub bywydau.

3. Yn nodi bod eithriadau yn bosibl mewn lleoliadau y bernir eu bod yn briodol gan awdurdodau lleol.

4. Yn nodi pwysigrwydd cefnogaeth gymunedol i unrhyw newidiadau i'r terfyn cyflymder er mwyn sicrhau y gellir lleddfu pryderon gwirioneddol ac yn nodi ymhellach y gellir nodi rhagor o eithriadau ar ôl cyflwyno terfynau newydd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i adolygu effaith y terfynau newydd, grymuso awdurdodau lleol i wneud unrhyw eithriadau pellach a darparu cyllid digonol i awdurdodau lleol i hwyluso cyflwyno terfynau newydd.

Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 15 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8347** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022.

2. Yn nodi bod gostwng terfynau cyflymder lle mae pobl a cherbydau yn rhyngweithio fwyaf yn gallu achub bywydau.

3. Yn nodi bod eithriadau yn bosibl mewn lleoliadau y bernir eu bod yn briodol gan awdurdodau lleol.

4. Yn nodi pwysigrwydd cefnogaeth gymunedol i unrhyw newidiadau i'r terfyn cyflymder er mwyn sicrhau y gellir lleddfu pryderon gwirioneddol ac yn nodi ymhellach y gellir nodi rhagor o eithriadau ar ôl cyflwyno terfynau newydd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i adolygu effaith y terfynau newydd, grymuso awdurdodau lleol i wneud unrhyw eithriadau pellach a darparu cyllid digonol i awdurdodau lleol i hwyluso cyflwyno terfynau newydd.

Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 15 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

Am 17.35, cododd Huw Irranca-Davies bwynt o drefn ynghylch y ffaith y cafodd ei enwi gan Aelod oedd yn siarad, ond y gwrthodwyd y cyfle iddo ymyrryd. Dywedodd y Dirprwy Lywydd mai mater i'r Aelod yw p'un a yw'n cymryd ymyrraeth, ac y gall Aelodau a enwyd ymateb os byddant yn rhoi eu hunain ar y rhestr siarad.

Am 18.20, cododd Janet Finch-Saunders bwynt o drefn ynghylch y defnydd o'r gair “imposter”. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n gwirio'r Cofnod.

Am 18.25, cododd Gareth Davies bwynt o drefn ynghylch y defnydd o'r gair “shrill”. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n gwirio'r Cofnod.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.33

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.38

**NDM8340** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Dod â'r Byd i Gymru - Sut rydym yn rhyddhau potensial Cymru fel cyrchfan dwristaidd fyd-eang o bwys?

Daeth y cyfarfod i ben am 19.04

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Medi 2023**